# Gwobr ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu (GCRhA) 2026

## Canllawiau ar gyfer sefydliadau a thimau enwebedig

# Cynnwys


1. Dyddiad cau ac amserlen asesu 3

2. Cyflwyniad 4

2.1 Diweddariadau ar gyfer 2026 4

3. Canllawiau ar gyfer enwebu 5

3.1 Cymhwystra 5
3.2 Dogfennau enwebu 6
3.3 Gofynion fformatio 7
3.4 Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth 10
3.5 Cyflwyno a derbyn enwebiadau 10

4. Meini prawf y wobr 11

5. Datblygu'r Cais 11

5.1 Tîm Craidd 11
5.2 Adran A – Rhan 1: Cyfansoddiad y Tîm Craidd 12
5.3 Adran A – Rhan 2: Datganiad Cyd-destun 13
5.4 Adran B: Cais yn erbyn dau faen prawf GCRhA 15
5.5 Adran C: Rhestr Gyfeiriadau 19

6. Datganiad o Gefnogaeth 20

7. Y broses adolygu a dewis 21

8. Digwyddiadau Cymorth Rhwyd-GCRhA 22

9. Canlyniadau a chyhoeddusrwydd 22

9.1 Gwybodaeth am Gyhoeddusrwydd a Ffotograffau 23
9.2 Adborth 24

10. Seremoni wobrwyo 24

Atodiad 1: Ffurflen Gais Tîm Enwebedig GCRhA 2026 25

Atodiad 2: Datganiad o Gefnogaeth 27

Atodiad 3: Cyfarwyddyd Sgorio GCRhA 2026 28

# 1. Dyddiad cau ac amserlen asesu

Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau a'r broses asesu fel a ganlyn:

| Dyddiad | Carreg Filltir |
|---|---|
| Dydd Llun<br>6 Hydref 2025 | Galwad am enwebiadau yn agor<br>Bydd Canllawiau GCRhA 2026 ar gyfer sefydliadau a thimau enwebedig ar gael ar wefan AU Ymlaen.<br>Bydd Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu (AGRhA) mewn sefydliadau yn gallu cael mynediad i'r dogfennau enwebu a'u lawrlwytho o grŵp 'Rhwydwaith Cysylltu Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu (AGRhA)' ar Cysylltu. |
| **Dydd Mercher<br>11 Mawrth 2026** | Enwebiadau yn cau<br>Rhaid i fanylion y tîm enwebedig a'r holl gopïau electronig o'r dogfennau enwebu gael eu lanlwytho gan yr AGRhA i blatfform ar-lein Survey Monkey Apply (SMA) AU Ymlaen erbyn **12:00 canol dydd (GMT).** Bydd mynediad i SMA yn cau i AGRhA y pryd hynny. |
| w/d 29 Mehefin | Arweinwyr Tîm Enwebedig, AGRhA ac Is-Gangellorion yn cael gwybod y canlyniad<br>Caiff Arweinwyr Tîm Enwebedig ac AGRhA wybod y canlyniad. Rhoddir gwybod i Is-gangellorion/Prifathrawon/Llywyddion (neu rywun cyfatebol) sefydliadau enwebu yn unig am unrhyw enillwyr. Sylwch, mae wybodaeth hon dan embargo tan y cyhoeddiad swyddogol. |
| Dydd Iau<br>6 Awst 2026 | Cyhoeddiad swyddogol<br>AU Ymlaen yn cyhoeddi enillwyr newydd GCRhA 2026. |
| Erbyn diwedd Awst 2026 | Adborth enwebeion yn cael ei gyhoeddi<br>Bydd timau enwebedig yn cael adborth ysgrifenedig ar eu henwebiad; sylwch, ni fydd sgorau adolygwyr a graddau cyffredinol yn cael eu rhannu. Bydd AGRhA yn cael eu copïo i mewn i'r adborth. |

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau manwl ar gyfer y broses enwebu a pharatoi a chyflwyno dogfennau enwebu ar gyfer gwobrau GCRhA 2026. Dylai sefydliadau sydd am newid eu AGRhA, neu fanylion cysylltu eu AGRhA, ebostio'r tîm yn cate@advance-he.ac.uk.

# 2. Cyflwyniad

Pwrpas Gwobr ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu (GCRhA) yw cydnabod a dathlu'r gweithio ar y cyd sydd wedi cael effaith bendant ar addysgu a dysgu ym maes **Addysg Uwch (AU) yn y DU.** Wedi ei gyflwyno yn 2016, mae GCRhA yn tynnu sylw at y rôl allweddol y mae gwaith tîm yn ei chwarae ym maes addysg uwch. Bydd pob gwobr yn cydnabod tîm sydd wedi galluogi newid mewn ymarfer i gydweithwyr a/neu fyfyrwyr ar lefel sefydliadol neu ddisgyblaethol.

Mae'r cynllun GCRhA yn cael ei drefnu a'i redeg gan AU Ymlaen. Er mwyn cymryd rhan yn y cynllun, rhaid i sefydliadau fod yn aelodau Llawn neu Ymgysylltiol o AU Ymlaen y DU; mae cymryd rhan yn y cynllun yn un o fuddion aelodaeth, h.y. ni chodir unrhyw ffi ychwanegol i gymryd rhan. Mae sefydliadau yn gymwys i gyflwyno **un tîm GCRhA enwebedig** trwy gyfrwng **'enwebiad'.**

Bydd dogfennau enwebu ar gael i'w lawrlwytho o'r grŵp preifat 'Rhwydwaith Cysylltu Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu (AGRhA)' ar blatfform Cysylltu AU Ymlaen. Os ydych yn AGRhA ac nid oes gennych fynediad i'r grwp Rhwydwaith Cysylltu AGRhA, cysylltwch â'r Tîm Gwobrau. Mae AGRhA yn cyflwyno enwebiadau trwy blatfform ar-lein Survey Monkey Apply (SMA) AU Ymlaen.

Caiff hyd at 15 o dimau enwebedig eu dewis i dderbyn gwobr GCRhA yn 2026. Caiff timau enwebedig wybod y canlyniad yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun 29 Mehefin 2026. Mae wybodaeth hon dan embargo tan y cyhoeddiad swyddogol ar ddydd Iau 6 Awst 2026.

Caiff yr Arweinydd Tîm ynghyd ag un aelod arall o bob tîm buddugol GCRhA eu gwahodd i fynychu digwyddiad dathlu yn hydref 2026 lle caiff Gwobr ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu eu tîm ei chyflwyno iddynt. Bydd tocynnau ychwanegol i'r seremoni ar gael i'w prynu.

Bydd Arweinwyr Tîm a Dirprwy Arweinwyr Tîm buddugol GCRhA yn cael eu gwahodd i fod yn aelodau o'r Rhwydwaith Gwobr ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu (Rhwyd-GCRhA), gan eu galluogi i fod yn llysgenhadon ar gyfer GCRhA, cydweithio ag enillwyr GCRhA eraill a chefnogi gwelliant parhaus ym maes dysgu ac addysgu.

Mae rhagor o fanylion am y Cynllun GCRhA ar gael ar wefan AU Ymlaen.

Mae Panel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn chwarae rôl ganolog yn y broses. Mae'r Panel yn cynghori ar y meini prawf, y broses o asesu a chymedroli, a dewis yr enillwyr. Mae'r Panel yn annibynnol ar AU Ymlaen ac yn cynnwys uwch gynrychiolwyr Darparwr Addysg Uwch (DAU) o wledydd y DU a rhanddeiliaid perthnasol eraill.

## 2.1 Diweddariadau ar gyfer 2026

- Rhaid i dimau enwebedig wahanu a nodi nifer y geiriau ar gyfer pob maen prawf o dan ddau bennawd ar wahân:
  - Geiriau wedi eu cynnwys yn y ffigurau
  - Geiriau wedi eu cynnwys ym mhrif gorff y testun

  Mae'r terfyn nifer y geiriau cyffredinol yn parhau'n gymwys. (Gweler Adran 3.3 am gyfarwyddiadau llawn.)

- Mae canllawiau newydd wedi cael eu hychwanegu ar ddefnyddio elfennau gweledol mewn Ceisiadau (Adran 3.3).
- Bydd AGRhA yn gallu cael mynediad i'r dogfennau enwebu trwy'r grŵp preifat 'Rhwydwaith Cysylltu Arweinwyr Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu (AGRhA)' ar blatfform Cysylltu AU Ymlaen.
- Gall y Datganiad o Gefnogaeth Sefydliadol gael ei ysgrifennu a'i gymeradwyo gan Gyfarwyddwr Maes Gwasanaeth Proffesiynol y tîm enwebedig, fel y bo'n briodol (gweler 3.2).
- Rhaid i dimau enwebedig gynnwys penynnau gydag enw eu harweinydd tîm a sefydliad enwebu a throedynnau gyda rhifau tudalennau (gweler 3.3).
- Gall Arweinwyr Tîm GCRhA 'optio i mewn ' i rannu eu manylion cysylltu (enw, sefydliad a chyfeiriad ebost) â grŵp cydlynu Rhwyd-GCRhA (rhwydwaith proffesiynol ar gyfer enillwyr GCRhA) os ydynt yn llwyddiannus. Bydd AGRhA yn gallu cofnodi'r penderfyniad hwn ar SMA adeg cyflwyno'r Cais (gweler 3.2).
- Mae nifer o fân ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i'r geiriad trwy'r dogfennau.

# 3. Canllawiau ar gyfer enwebu

## 3.1 Cymhwystra

Mae Gwobr ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu (GCRhA) yn agored i bob Darparwr Addysg Uwch (DAU) sy'n aelod o AU Ymlaen ar draws y DU, gan gynnwys Colegau Addysg Bellach a darparwyr annibynnol ('amgen'). Gall pob DAU sy'n aelod yn y DU enwebu **un tîm** sy'n arddangos gweithio ar y cyd effeithiol ym maes addysgu a dysgu.

Disgwylir i sefydliadau sicrhau bod eu prosesau dewis mewnol yn gynhwysol a heb wahaniaethu, gan gydnabod yr amrywiol ffyrdd y mae staff a myfyrwyr yn cyfrannu at ddysgu ac addysgu. Gall aelodau tîm fod ag **unrhyw rôl sy'n cyfrannu at wella addysgu a dysgu**. Mae staff sy'n gweithio ar gampws dramor a gyflogir gan DAU y DU yn gymwys.

Rhaid i bob tîm ddangos ei fod wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â myfyrwyr addysg uwch. Anogir cynnwys aelodau o'r tîm sy'n fyfyrwyr a gallant fod yn fyfyrwyr presennol neu fod â rôl gynrychioliadol. Os nad yw myfyrwyr yn rhan o'r tîm, rhaid i'r tîm ddangos yn eglur sut y mae myfyrwyr yn cymryd rhan uniongyrchol yn ei waith.

Rhaid i'r Arweinydd Tîm gael ei gyflogi'n uniongyrchol gan DAU y DU sy'n enwebu. Gellir cynnwys aelodau allanol, megis rhai o fyd diwydiant neu sefydliadau partner (gan gynnwys y Dirprwy Arweinydd Tîm). Fodd bynnag, dim ond un sefydliad all gyflwyno'r enwebiad – ni dderbynni Ceisiadau ar y cyd.

Ni all yr Arweinydd Tîm, neu Ddirprwy Arweinwyr Tîm, fod ag enwebiad gweithredol ar gyfer y Cynllun Cymrodoriaeth Addysgu Cenedlaethol (CCAC) yn yr un rownd. Yn yr un modd, ni all yr Arweinydd Tîm neu'r Dirprwy Arweinydd Tîm wasanaethu fel AGRhA neu Ddirprwy AGRhA ar yr un pryd. Os hoffai AGRhA neu Ddirprwy AGRhA ymgymryd â'r rôl Arweinydd Tîm neu Ddirprwy Arweinydd Tîm GCRhA, rhaid iddynt gamu i lawr ar gyfer y cylch hwnnw. Cysylltwch â CATE@advance-he.ac.uk i roi gwybod am unrhyw newidiadau

a darparu manylion cysylltu ar gyfer yr AGRhA/Dirprwy AGRhA newydd er mwyn newid mynediad SMA.

Rhaid i'r Cais adlewyrchu gwaith gwreiddiol y tîm enwebedig. Mae AU Ymlaen yn cadw'r hawl i ddefnyddio meddalwedd atal llên-ladrata. Er y gall offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (e.e. ar gyfer gramadeg neu sillafu) gefnogi datblygiad y Cais, rhaid i'r cynnwys fod yn gynnwys y tîm ei hun. Trwy gyflwyno enwebiad, mae sefydliadau'n cadarnhau unplygrwydd a dilysrwydd Cais y tîm.

Anogwn enwebiadau gan ddarparwyr AU sy'n golegau a darparwyr amgen sydd heb gael eu cynrychioli'n ddigonol yn y rowndiau blaenorol.

Wrth wneud enwebiadau, dylai sefydliadau ystyried egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gan fod dadansoddiad o ddata gwobrau blaenorol yn dangos bod **y grwpiau canlynol heb gael eu cynrychioli'n ddigonol**:

- Yr amrywiaeth eang o **staff proffesiynol sy'n cefnogi addysg myfyrwyr AU** (dyma rai enghreifftiau: datblygwyr dysgu, technolegwyr dysgu, dylunwyr dysgu, cynghorwyr gyrfaoedd a chyflogadwyedd, staff llyfrgell, staff cymorth i fyfyrwyr, datblygwyr sgiliau academaidd, cynghorwyr academaidd, technegwyr, swyddogion lleoliadau, ac ati.)
- Staff **rhan-amser, ffracsiynol, sesiynol, neu sy'n cael eu talu fesul awr**.
- **Grwpiau staff lleiafrifoedd ethnig** fel y bo'n berthnasol i ystadegau'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA);
- **Staff AU sy'n gweithio o fewn y sector colegau a darparwyr amgen.**
- **Gwrywod** (fel y bo'n berthnasol i ddata HESA).

**Anogir sefydliadau hefyd i ddefnyddio'r broses ddewis fewnol i godi proffil y timau enwebedig** a pharhau i hyrwyddo eu gwaith, beth bynnag fydd canlyniad y gystadleuaeth, gan fod y cynllun yn un cystadleuol.

## 3.2 Dogfennau enwebu

Mae **enwebiadau** yn cynnwys y dogfennau a'r ffurflenni a restrir isod. Rhaid i ddogfennau enwebu a manylion y tîm enwebedig gael eu cwblhau a'u cyflwyno trwy SMA gan AGRhA y sefydliad (gweler 3.5).

### Mae dogfennau enwebu a gwybodaeth am y tîm enwebedig yn cynnwys y canlynol:

- **Gwybodaeth am y Tîm Enwebedig**: Ar gyfer GCRhA 2026, rhaid i AGRhA gasglu'r wybodaeth ganlynol gan Arweinwyr Tîm a Dirprwy Arweinwyr Tîm enwebedig a'i rhoi ar blatfform ar-lein SMA AU Ymlaen:
  - Enw a Theitl.
  - Teitl y Swydd, Adran ac Enw a Chyfeiriad y Sefydliad Enwebu.
  - Manylion Cysylltu:
    - gan gynnwys rhif ffôn ar gyfer yr Arweinydd Tîm y mae'n cydsynio i ni ei ddefnyddio i gysylltu ag ef/hi ar y diwrnod canlyniadau, os yw'n llwyddiannus.

    - gall yr Arweinydd Tîm hefyd roi cydsyniad i'w enw, sefydliad a chyfeiriad ebost gael eu rhannu â Grŵp Cydlynu Rhwyd-GCRhA, os yw'n llwyddiannus[1].
  - Meysydd Thematig.
  - **Hefyd, ar gyfer holl aelodau'r tîm,** enwau, statws (h.y. staff / myfyriwr / partner allanol) a chyfeiriadau ebost (uchafswm o 13 aelod tîm, yn ogystal ag Arweinydd Tîm a Dirprwy Arweinydd Tîm – gweler Adran 5.2 am fanylion).

- **Cais:** wedi ei gwblhau gan y tîm enwebedig trwy ddefnyddio'r Ffurflen Gais wedi ei lawrlwytho gan yr AGRhA o grŵp preifat Rhwydwaith AGRhA ar Cysylltu. Mae timau enwebedig yn defnyddio'r Ffurflen Gais i ysgrifennu naratif yn erbyn dau faen prawf GCRhA (**uchafswm o 4500 o eiriau**) ynghyd â chofnod o Gyfansoddiad y Tîm Craidd, Datganiad Cyd-destun cyffredinol (hyd at 300 o eiriau), a Rhestr Gyfeiriadau (gweler 5.3 am fanylion) ar gyfer y cyfeiriadau a ddefnyddir yn y Cais (heb ei gynnwys yn nifer y geiriau); gweler Atodiad 1. Mae fersiwn dwyieithog Cymraeg hefyd ar gael i'r AGRhA ei lawrlwytho. Dylai'r Ffurflen Gais wedi ei chwblhau gael ei chyflwyno gan yr AGRhA fel ffeil PDF.

- **Datganiad o Gefnogaeth wedi ei lofnodi**: datganiad (uchafswm o 1,000 o eiriau) yn rhoi cymeradwyaeth a phersbectif sefydliadol i gefnogi'r Cais. Dylai'r datganiad hwn gael ei ysgrifennu gan gydweithiwr sydd â rôl uwch yn y sefydliad enwebu (ar lefel Dirprwy Is-ganghellor/Cyfarwyddwr Maes Gwasanaeth Proffesiynol, neu rywun cyfatebol), sy'n gyfarwydd â gwaith y tîm enwebedig. Dylid ei gyflwyno trwy ddefnyddio'r ffurflen a gafodd ei lawrlwytho gan yr AGRhA o Cysylltu (gweler Atodiad 2). Dylai'r datganiad gael ei gymeradwyo gan Is-Ganghellor y sefydliad (neu rywun cyfatebol). Mae fersiwn dwyieithog Cymraeg hefyd ar gael i'r AGRhA ei lawrlwytho. Rhaid i'r Datganiad o Gefnogaeth wedi ei gwblhau gael ei gyflwyno gan yr AGRhA fel ffeil PDF.

### Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal

**Ar ôl** y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Cais, bydd tîm Gwobrau AU Ymlaen yn cysylltu â phob aelod o'r timau enwebedig yn gofyn iddynt gwblhau **arolwg Monitro Cyfle Cyfartal ar-lein** (gweler Adran 3.4 isod). Caiff y data hwn ei ddefnyddio'n ddienw i adrodd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i Banel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU. Bydd URL yr arolwg yn cael ei ebostio'n uniongyrchol at aelodau'r tîm gan y Tîm Gwobrau unwaith y bydd yr enwebiadau wedi cau ar ddydd Mercher 11 Mawrth 2026.

## 3.3 Gofynion fformatio

Dylai'r confensiynau* canlynol gael eu dilyn wrth gyflwyno'r Cais. Mae hyn yn sicrhau tegwch a chysondeb yn y broses adolygu ar draws pob tîm enwebedig.

- **Terfyn Nifer y Geiriau:** Mae terfyn llym ar gyfer nifer y geiriau yn Adrannau A a B. Ni fydd adolygwyr yn ystyried unrhyw eiriau sy'n fwy na'r terfynau hyn.

  Rhaid i dimau enwebedig ddarparu dadansoddiad o nifer y geiriau ar gyfer Adran B o dan ddau gategori ar wahân:

[1] Caiff y data personol hwn ei rannu at y diben o gysylltu Arweinwyr Tîm â Grŵp Cydlynu Rhwyd-GCRhA er mwyn rhannu digwyddiadau, cyhoeddiadau neu gyfleoedd posibl i weithio ar y cyd. Caiff data ei brosesu yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu yn unig.

1. Nifer y geiriau yn yr holl 'ffigurau', megis diagramau, graffiau a thablau – mae hyn yn cynnwys yr holl allweddau, penawdau, labeli echel, ac unrhyw destun arall o fewn yr elfennau gweledol.
2. Nifer y geiriau ym mhrif gorff y testun, gan gynnwys yr holl benawdau adran, cyfeiriadau yn y testun, ôl-nodiadau, atalnodi a nodau rhifiadol.

Ni all cyfanswm nifer y geiriau yn y ddau gategori fod yn fwy na therfyn cyfan nifer y geiriau.

- **Ffont:** Arial 12 pwynt.
- **Y Defnydd o Elfennau Gweledol**

Mae diagramau, siartiau, graffiau, tablau a chynrychiolaethau sgematig arall **wedi eu caniatáu** a gellir eu defnyddio i gefnogi Cais y tîm enwebedig. Dylid cyflwyno'r wybodaeth mewn ffurf strwythuredig neu gryno.


- **Mae enghreifftiau'n cynnwys:**
    - Tablau
    - Siartiau bar
    - Graffiau llinell
    - Siartiau cylch
    - Plotiau gwasgaredig
    - Siartiau llif
    - Diagramau proses
    - Diagramau Venn
    - Diagramau Fishbone (achos ac effaith)
    - Llinellau amser
    - Mapiau meddwl
    - Diagramau cysyniadol
    - Diagramau fframwaith
    - Matricsau (e.e. dadansoddiad SWOT)
    - Gridiau yn cymharu categorïau neu newidynnau

Rhaid i'r holl destun o fewn yr elfennau hyn – megis labeli, penawdau, allweddau, a theitlau echel – gael eu cynnwys yn nifer y geiriau yn y 'ffigurau'.

- Fodd bynnag, mae elfennau gweledol heb fod yn sgematig **heb eu caniatáu** a bydd enwebiadau sy'n cynnwys y rhain yn cael eu dychwelyd.

**Mae'r rhain yn cynnwys:**

- Ffotograffau (e.e. delweddau o wrthrychau, pobl a digwyddiadau)
- Darluniadau neu ddarluniau
- Cipluniau
- Logos neu eiconau
- Testun wedi ei sganio
- Delweddau addurniadol neu artistig
- Ffeithluniau gydag elfennau heb fod yn sgematig (dylai timau enwebedig ddileu unrhyw elfennau sgematig a'u cyflwyno ar wahân). **Ni fyddai'r** elfen weledol isod, er enghraifft, yn cael ei ganiatáu:




- **Penynnau a throedynnau:** rhaid i'r tîm enwebedig gynnwys penynnau gydag enw'r Arweinydd Tîm a'r sefydliad enwebu a throedynnau ar gyfer rhifau'r tudalennau.
- **Geirdaon:** dylai geirdaon gan fyfyrwyr gael eu credydu mewn ffordd sy'n darparu'r cyd-destun perthnasol am y dysgwr, tra'n cadw ei hunaniaeth yn breifat. Er enghraifft: *'Myfyriwr Israddedig'* neu *'Mynychwr Gweithdy Ôl-raddedig'*. Rhaid i eirdaon gan gydweithwyr neu randdeiliaid eraill gynnwys eu henw gyda chydsyniad neu fod yn ddi-enw os yw'n fwy priodol.
- **Cyfeiriadau:** gellir eu cynnwys yng nghorff y testun neu eu rhoi fel ôl-nodiadau (yn hytrach na throedynnau). Dylai'r rhain gael eu hychwanegu at nifer y geiriau terfynol.
- **Hyperddolenni**: <u>peidiwch</u> â chynnwys hyperddolenni gan eu bod yn ychwanegu gwybodaeth ychwanegol y tu allan i derfyn nifer y geiriau. Bydd AU Ymlaen yn dychwelyd Ceisiadau sy'n cynnwys hyperddolenni. Caniateir cyfeiriadau rhyngrwyd yn y Rhestr Gyfeiriadau i ddynodi ffynonellau ar-lein, ond cyfarwyddir adolygwyr i <u>beidio</u> a'u dilyn.
- **Cadw ffeiliau:** Dylai'r confensiwn enwi canlynol gael ei ddefnyddio ar gyfer pob ffeil a gyflwynir: <Institution>_<TeamLeadersName>_<DocName>; e.e. UniofPoppleton_JamesSmith_Claim.
- <u>**Dylai AGRhA nodi pan fydd ffeiliau'n cael eu cyflwyno trwy SMA, mae'r system yn cynhyrchu rhestr o lythrennau a rhifau y mae'n ei hychwanegu at enw'r ffeil fel dynodydd unigryw. Ni fydd hyn yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar y modd y caiff y ffeiliau a gyflwynir eu prosesu.**</u>

**Mae AU Ymlaen a Phanel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw enwebiadau sydd heb fodloni'r gofynion hyn. Felly cyfrifoldeb y sefydliad enwebu a'r Arweinydd Tîm yw sicrhau bod yr enwebiad yn bodloni'r gofynion o ran fformatio, llofnodion gofynnol a nifer y geiriau.**

## 3.4 Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth

Caiff yr holl ddata personol a ddarperir trwy gyflwyno enwebiad tîm ar gyfer y cynllun GCRhA eu cadw'n gyfrinachol gan AU Ymlaen, a dim ond dogfennau perthnasol gaiff eu rhannu â'r adolygwyr a Phanel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU fel yr esbonnir yn y ddogfen ganllaw hon.

Mae AU Ymlaen wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn casglu data yn ymwneud ag aelodau tîm ar gyfer monitro ystadegol trwy'r Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal. Nid yw'r wybodaeth a ddarperir yn ffurfio rhan o'r Cais ac nid yw ar gael i'r adolygwyr, ond fe'i defnyddir yn ddienw gan AU Ymlaen ar gyfer monitro ystadegol.

Mae cyfrinachedd y data a gyflwynir yn cael ei gynnal gan AU Ymlaen. Mae AU Ymlaen yn casglu'r wybodaeth a ddarperir gan bob aelod o'r tîm enwebedig ac yn rhannu'r data a gesglir yn ddienw er mwyn adrodd yn flynyddol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i Banel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU.

Mae Arolwg Monitro Cyfle Cyfartal yn arolwg ar-lein a dylai **pob aelod o'r tîm craidd gwblhau'r arolwg.** Bydd y Tîm Gwobrau yn cyfathrebu'n uniongyrchol â holl aelodau'r tîm ynghylch cwblhau'r arolwg hwn (gweler Adran 3.2 uchod).

I gael gwybodaeth am y modd y mae AU Ymlaen yn casglu, storio a defnyddio gwybodaeth bersonol am dimau enwebedig GCRhA, cyfeiriwch at ein **datganiad preifatrwydd**.

## 3.5 Cyflwyno a derbyn enwebiadau

**Rhaid i ddogfennau enwebu gael eu cyflwyno gan AGRhA y sefydliad** trwy blatfform ar-lein SMA. Rhaid i AGRhA greu cyfrif ar SMA er mwyn iddynt allu lanlwytho'r enwebiad(au). Rhoddir cyfarwyddiadau llawn yn Llawlyfr AGRhA a Chanllaw Defnyddwyr SMA 2026.

**Rhaid i'r holl ddogfennau enwebu gael eu lanlwytho erbyn 12:00 canol dydd (GMT) ddydd Mercher 11 Mawrth 2026.**

Mae'r AGRhA yn gweithredu ar ran ei sefydliad, a bydd AU Ymlaen yn cymryd ei fod yn gweithredu yn unol â disgwyliadau ei uwch reolwyr wrth gyflwyno enwebiad ei sefydliad.

Dylid cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg; rhaid i'r rhai sy'n cyflwyno cais yn Gymraeg gynnwys fersiwn Saesneg o bob dogfen hefyd at ddibenion adolygu.

Caiff enwebiadau sydd wedi eu lanlwytho a dderbynnir eu cydnabod trwy ebost awtomatig sy'n cael ei anfon at yr AGRhA o system SMA. Sylwch, ni fydd y system SMA ar-lein yn caniatáu i enwebiadau anghyflawn gael eu cyflwyno.

Ar ôl cyflwyno'r Cais, bydd AU Ymlaen yn cadarnhau bod yr holl ddogfennau wedi cael eu derbyn ac mae modd eu cyrchu trwy ebost sy'n cael ei anfon at AGRhA y sefydliad o'r blwch post cate@advance-he.ac.uk erbyn **17:00 ddydd Gwener 13 Mawrth 2026**. Os nad yw'r AGRhA wedi cael y cadarnhad hwn gan AU Ymlaen erbyn y dyddiad hwnnw, cynghorwn ei fod yn cysylltu ag AU Ymlaen yn cate@advance-he.ac.uk i gadarnhau bod y ddogfen wedi cael ei derbyn cyn y dyddiad cau terfynol sef **17:00 ddydd Llun 16 Mawrth 2026**.

# 4. Meini prawf y wobr

Caiff pob Cais tîm ei asesu ar sail y dystiolaeth a ddarperir yn y dogfennau enwebu yn erbyn **dau faen prawf GCRhA**:

> **Maen Prawf 1 GCRhA: Rhagoriaeth mewn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm**
> Tystiolaeth o ragoriaeth yn ymagwedd y tîm at weithio ar y cyd, sy'n gymesur â'i gyd-destun a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu cynnig.
>
> **Maen Prawf 2 GCRhA: Rhagoriaeth mewn effaith gweithio ar y cyd**
> Tystiolaeth bod y tîm yn cael effaith bendant ar addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol arferol.

Bydd adolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o **werth, cyrhaeddiad**, **ac effaith** sydd i'w gweld yn y dystiolaeth o fewn y naratif a gyflwynir yn Adran B y Cais. Sylwch, mae pob un o'r ddau faen prawf uchod yn cael ystyriaeth gyfartal yn y broses asesu a'u pwysoli'n gyfartal yn y sgôr gyffredinol.

# 5. Datblygu'r Cais

Mae tair adran i'r 'Cais' (A-C):

**Adran A:**

> **Rhan 1** – Cyfansoddiad y Tîm Craidd (dim terfyn nifer y geiriau).
>
> **Rhan 2** – Datganiad Cyd-destun (uchafswm o 300 o eiriau).

**Adran B:** Cais yn erbyn dau Faen Prawf Dyfarnu GCRhA (uchafswm o 4500 o eiriau).

**Adran C:** Rhestr Gyfeiriadau.

Dim ond Adran B, sy'n cynnwys tystiolaeth yn erbyn dau faen prawf GCRhA, sy'n cael ei sgorio gan yr adolygwyr; nid yw'r Datganiad Cyd-destun a'r Rhestr Gyfeiriadau yn cael eu sgorio.


## 5.1 Tîm Craidd

Wrth ddiffinio'r Tîm Craidd sydd i'w enwebu ar gyfer GCRhA, gallai fod yn ddefnyddiol i ystyried tîm 'craidd' fel y rhai a gychwynnodd y gwaith a allai gynnwys 'tîm estynedig' mwy o faint. Mae'r tîm estynedig yn ymgysylltu â gwaith y tîm craidd a bydd yn rhan o esblygiad y gwaith hwnnw. Yn aml mae llif rhwng y ddau grŵp hyn wrth i'r gwaith ddatblygu, a bydd aelodau'r grŵp estynedig hwn yn dylanwadu ar waith parhaus y tîm craidd. Gall aelodau'r tîm craidd ddod o ddisgyblaethau, timau proffesiynol, myfyrwyr a/neu grwpiau allanol ac ati, a phob cam gyrfa, h.y. heb fod yn gysylltiedig â swydd uwch neu statws swydd yr aelodau.

Disgwylir i'r timau craidd fod yn wahanol iawn, gan adlewyrchu amrywiaeth y gwaith o fewn addysg uwch yn y DU a chyd-destun unigryw pob tîm; nid oes ddisgwyl y bydd grŵp estynedig o unigolion yn gysylltiedig â gwaith y tîm craidd. Ceir sawl ffordd wahanol o ddangos tystiolaeth ar gyfer y ddau faen prawf, fel y bo'n briodol yn ôl natur gwaith y tîm enwebedig, a bydd adolygwyr yn cymhwyso'r meini prawf hyn yn eu troi i'r cais unigryw sy'n cael ei wneud gan bob tîm enwebedig.

Wrth ddangos dyfnder y gweithio ar y cyd rhwng aelodau'r tîm i ddarparu tystiolaeth gryf yn erbyn Maen Prawf Gwobr 1 GCRhA, cynghorir timau i ganolbwyntio ar y rhyngweithio rhwng aelodau craidd y tîm. Er mwyn mynegi'n llawn gymhlethdod gweithio ar y cyd y tîm, rydym wedi cynnwys diagram gan Spencer isod (gweler tudalen 17 isod) sy'n rhoi rhywfaint o arweiniad ar ddeall elfennau allweddol posibl ymarfer gweithio ar y cyd. Lle mae 'grŵp estynedig', mae gwaith y grŵp hwn yn debygol o ffurfio rhan o'r dystiolaeth ar draws y Cais er mwyn arddangos Gwerth, Cyrhaeddiad ac Effaith.

Er mwyn esbonio ymhellach yr hyn a olygir wrth dîm craidd a grŵp/tîm estynedig (ond heb osod gofyniad i'r tîm enwebedig gydymffurfio â'r model hwn), mae'r diagram isod yn rhoi esiampl bosibl o'r rhyngweithio rhwng y tîm craidd a'r grŵp estynedig, gan nodi rhai nodweddion posibl ar gyfer pob un ohonynt. Cysylltwch â ni yn CATE@advance-he.ac.uk ar gyfer unrhyw ymholiadau neu ganllawiau pellach ynghylch adnabod aelodau tîm craidd y tîm.



**Tîm craidd**

Grŵp penodol o 3-15 o aelodau fel arfer.

Sefydlu'r tîm ac yn gyfrifol am ei ganlyniadau.

Wedi ei nodweddu gan fewnbwn creadigol, gweithio ar y cyd dwfn, datblygu cysyniadau, syniadau a chymryd cyfrifoldeb am benderfyniadau allweddol.

Rolau ac arbenigedd gwahanol o fewn y tîm craidd **a all gynnwys er enghraifft** (ond bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar waith y tîm): Arweinydd Tîm, Dirprwy Arweinydd Tîm, Cynrychiolydd Myfyrwyr a Phartner Allanol.

**Grŵp estynedig**

Unigolion wedi eu gwasgaru ar draws sefydliad (a/neu'n allanol) sy'n gweithredu ar yr ymyriadau/gweithgareddau sy'n deillio o'r tîm craidd.

Gallai cyfranogiad gael ei nodweddu fel cynghrair dros dro neu ymgysylltiad cynyddol.

Mae'n bosibl i aelodau'r tîm craidd a'r grŵp estynedig gydweithio'n agos i gyflenwi er mwyn i syniadau allu llifo'r ddwy ffordd gan arwain at ddatblygiad parhaus gwaith y tîm.

## 5.2 Adran A – Rhan 1: Cyfansoddiad y Tîm Craidd

Mae'r Ffurflen Gais yn rhoi lle penodol i dimau enwebedig restru aelodau eu tîm craidd. Ni chaiff Cyfansoddiad y tîm craidd ei sgorio gan adolygwyr ond bydd yn eu helpu i ddehongli cyd-destun y tîm.

Yn yr adran hon, dylai timau GCRhA ddarparu rhestr o enwau a theitlau swyddi aelodau eu tîm craidd ynghyd â'r rôl sydd gan bob aelod o fewn y tîm. Gall y wybodaeth hon helpu adolygwyr i lunio barn gliriach ynghylch natur y gweithio ar y cyd pan fyddant yn adolygu Maen Prawf 1. Gweler yr enghraifft isod. Y maint mwyaf a ganiateir ar gyfer y tîm craidd yw 15 o aelodau, gan gynnwys yr Arweinydd Tîm a'r Dirprwy Arweinydd Tîm.

Fel rheol bydd un Arweinydd Tîm ac un Dirprwy Arweinydd Tîm, ond os oes achos cryf dros gael cyd-arweinwyr yn y tîm, cysylltwch â thîm Gwobrau AU Ymlaen yn cate@advance-he.ac.uk am gyngor.

Mae enghraifft o dîm craidd damcaniaethol yn cael ei rhoi yn y darn o Ffurflen Gais GCRhA wedi ei chwblhau (Atodiad 1) isod (mae'r holl enwau a theitlau yn rhai ffug). Ni fwriedir i hyn fod yn rhagnodol mewn unrhyw ffordd, dim ond dangos sut y bwriedir defnyddio Cyfansoddiad y Tîm Craidd yn Adran A, Rhan 1:

| | |
|---|---|
| **Enw'r Arweinydd Tîm:** | Yelda Adem<br>Dirprwy Bennaeth Sefydliad Iechyd Cyhoeddus ym Mhrifysgol Poppleton |
| **Enw'r Dirprwy Arweinydd Tîm:** | Yr Athro Mukasa Apio<br>Ymchwilydd Addysgol wedi ei leoli yn y Sefydliad Iechyd Cyhoeddus |
| **Enw'r Tîm:** | Y Tîm Iechyd Digidol |
| **Sefydliad:** | Prifysgol Poppleton |

**Adran A, Rhan 1: Cyfansoddiad y Tîm Craidd (heb ei sgorio gan yr adolygwyr)**

**Ychwanegwch ragor o resi fel y bo angen (uchafswm o 15 o aelodau, gan gynnwys Arweinydd Tîm a Dirprwy ArweinyddTîm)**

| Enw | Rôl a/neu Swydd |
|---|---|
| Rosalba De León | Partner sy'n Fyfyriwr (Deintyddiaeth 3ydd blwyddyn) |
| Yr Athro Tomas Grey | Arweinydd y Rhaglen Deintyddiaeth |
| Dr Shane Hardman | Partner GIG Allanol (Ysbyty Poppleton) |
| Ellis Shah | Cadeirydd y Grŵp Cleifion Cymunedol ar gyfer Gwasanaethau Deintyddiaeth Lleol |
| Rory Simmons | Llyfrgellydd Pwnc ar gyfer Iechyd (wedi ei leoli yn y Ganolfan Ddysgu) |
| Siobhan Wood | Dylunydd Dysgu Digidol (Gwasanaethau Addysg Canolog) |

## 5.3 Adran A – Rhan 2: Datganiad Cyd-destun

Mae AU Ymlaen a Phanel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn cydnabod y caiff rhagoriaeth mewn addysgu a chefnogi dysgu ei leoli o fewn cyd-destunau academaidd, proffesiynol a sefydliadol penodol. Caiff natur y cyd-destun sefydliadol a chyfle pob tîm enwebedig i gyfrannu ei ystyried. *Mae'r Datganiad Cyd-destun yn hanfodol i'r broses adolygu er mwyn galluogi adolygwyr i ddeall rôl a lleoliad y tîm.*

Bydd cryn dipyn o amrywiaeth rhwng timau enwebedig, gan adlewyrchu'r gwahaniaeth yng nghyfansoddiad, cyd-destun a gwaith y tîm. Mae'r Datganiad Cyd-destun (300 o eiriau) ar ddechrau Cais y tîm, yn dilyn Cyfansoddiad y Tîm Craidd, ac ni chaiff ei sgorio gan yr

adolygwyr. Dylai'r adran hon gael ei defnyddio i nodi cyd-destun, lleoliad, maes a/neu faes gwaith y tîm.

Mae'r Datganiad Cyd-destun yn darparu ffrâm cyfeirio ar gyfer Adran B y Cais ac yn cynnig modd i adolygwyr gyfeirio at y dystiolaeth a roddir yn erbyn dau faen prawf GCRhA. Dylai timau ddefnyddio'r Datganiad Cyd-destun i esbonio cyd-destun eu tîm a'r lleoliad sefydliadol. Os yw'r naratif yn Adran B y Cais yn defnyddio tystiolaeth o waith ar draws sefydliadau gwahanol, y sector ehangach a/neu ddiwydiant neu gyrff sector, dylid esbonio hyn hefyd yn y Datganiad Cyd-destun. Dylai timau egluro natur eu hymarfer addysgu a dysgu (e.e. mathau o ddysgwyr, disgyblaeth(au)/maes(meysydd) arbenigol, a dylai roi amlinelliad byr o gwmpas a graddfa'r ymarfer a wneir gan y tîm.

Ni ddylid defnyddio'r Datganiad Cyd-destun i roi gwybodaeth a fyddai'n ychwanegu tystiolaeth o effaith at y naratif a amlinellir yn Adran B y Cais. Caiff cynnwys a strwythur y Datganiad Cyd-destun ei bennu gan y tîm enwebedig er mwyn arddangos yn y ffordd orau bosibl y rhannau perthnasol o'i gyd-destun sy'n lleoli'n effeithiol y dystiolaeth sydd i ddod yn y Cais. Dylai timau osgoi cyflwyno Datganiadau Cyd-destun sy'n cynnwys llawer o fanylion am hanes ac enw da ei sefydliad.

**Rhaid i'r wybodaeth fod yn gryno oherwydd 300 o eiriau yw terfyn nifer y geiriau**. Mae ychydig o gyngor i dimau enwebedig ynghylch pa fathau o wybodaeth i'w cynnwys yn eu Datganiad Cyd-destun, a'r hyn na ddylid ei gynnwys, wedi ei nodi isod.

**Beth i'w gynnwys –** mae esbonio cyd-destun y tîm yn amlwg yn helpu adolygwyr i ddeall Cais y tîm (efallai fod aelodau'r tîm yn dod o gyd-destunau gwahanol iawn), ond gall hefyd eu helpu i weld sut mae gwaith y tîm yn sefyll allan mewn sefyllfa arbennig. Gallai'r tîm ystyried cynnwys gwybodaeth megis:

- Gwybodaeth am y sefydliad sy'n cynnig modd i adolygwyr ddeall y math o amgylchedd AU y mae'r tîm yn gweithio ynddo, a'r corff dysgwyr y mae'r tîm yn gweithio ag ef.
- Os yw'r tîm yn defnyddio tystiolaeth o fwy nag un sefydliad neu gyd-destun, dylech gynnwys gwybodaeth am yr holl sefydliadau/cyd-destunau sy'n berthnasol i'r Cais.
- Gwybodaeth am y dysgwyr a/neu gydweithwyr y mae'r tîm yn gweithio gyda nhw – pwy yw'r myfyrwyr y mae eu canlyniadau'n cael eu trawsnewid? A yw'r tîm yn gweithio ar draws sefydliad cyfan, neu gyda grwpiau penodol?
- Gwybodaeth am ddisgyblaeth, maes, maes arbenigol a/neu broffesiynol y tîm ac aelodau'r tîm fel y bo'n berthnasol i'r dystiolaeth y byddant yn ei darparu o dan y ddau faen prawf dyfarnu.
- Gwybodaeth a/neu gefndir sylfaenol sy'n fframio gweithgarwch y tîm – er enghraifft, os yw'r tîm yn trafod prosiect neu gyfnod amser penodol neu ffocws gweithgarwch i arddangos ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm – oes unrhyw wybodaeth a fyddai'n gosod y cefndir ar gyfer hyn?
- Gwybodaeth am unrhyw rolau penodol sydd gan aelodau'r tîm, neu'r tîm cyfan, a allai fod yn benodol i'w cyd-destun, neu'r math o sefydliad – mae hyn yn helpu'r adolygwyr i ddeall nodweddion arbennig cyd-destun y tîm.

- Gwybodaeth sy'n rhoi'r cyd-destun ar gyfer unrhyw weithgarwch ehangach y gall y tîm fod yn ymwneud ag ef sy'n cael ei drafod o dan y naill faen prawf neu'r llall, e.e. cyrff sector, diwydiant. Cofiwch fod yn rhaid i weithgareddau a thystiolaeth o werth, cyrhaeddiad ac effaith yn Adran B gyfeirio at addysgu AU a/neu gefnogi dysgu. Efallai y bydd y tîm yn gallu egluro'r cyd-destun ar gyfer hyn yma.
- Dylech gynnwys llinell amser i helpu adolygwyr i weld y cynnydd ac unrhyw effaith barhaus sy'n deillio o weithgareddau'r tîm y mae tystiolaeth ar ei gyfer i'w gweld o dan un neu'r ddau feini prawf.
- Unrhyw wybodaeth arall am agweddau arbennig o sefyllfa'r tîm a allai fod yn ffactor sy'n llywio'r dystiolaeth a ddarperir, er enghraifft, os yw'n dîm cymharol newydd, neu os yw'r tîm wedi profi trosiant staff neu newid cyd-destunol mawr, neu os oes unrhyw gyfyngiadau penodol ar ganlyniadau neu gyrhaeddiad y mae angen i'r adolygwyr eu deall.

Sylwch dylai'r Datganiad Cyd-destun gael ei ysgrifennu yn y **llais personol (ni, ein).**

**Yr hyn na ddylid ei gynnwys** yn y Datganiad Cyd-destun (oherwydd ei fod yn well i'w ddefnyddio yn Adran B):

- Enghreifftiau o ymarfer y tîm a gwybodaeth am fentrau addysgu a dysgu penodol sydd wedi cael eu cyflwyno gan y tîm fel rhan o weithgarwch gweithio ar y cyd y tîm – y ffordd orau o gynnwys y rhain yw o dan Faen Prawf 1 neu Faen Prawf 2 mae'n debyg. Fodd bynnag, gan fod Maen Prawf 1 yn canolbwyntio ar ymagweddau gweithio ar y cyd y tîm, efallai y bydd angen i chi gynnwys rhai esboniadau ymarferol am weithgareddau'r tîm yn y Datganiad Cyd-destun. Mae'n bwysig cofio na fydd hyn yn cael ei sgorio gan yr adolygwyr, felly os ydych chi'n ei weld fel 'tystiolaeth' ar gyfer Cais eich tîm am ragoriaeth, rhaid iddo gael ei gynnwys o fewn Maen Prawf 1 neu 2.
- Datblygiad y tîm fel tîm a sut mae'r aelodau yn gweithio gyda'i gilydd (dylid defnyddio hyn yn y dystiolaeth ar gyfer Maen Prawf 1).
- Gwaith sy'n effeithio ar gyrff proffesiynol neu gymunedau AU ehangach (mae'n well cynnwys y rhain ym Maen Prawf 2).
- Lledaenu mentrau ac effaith ar draws meysydd, campysau, a/neu dimau eraill (gallai'r rhain fod yn berthnasol i Faen Prawf 1 neu 2).

## 5.4 Adran B: Cais yn erbyn dau faen prawf GCRhA

Dylai timau enwebedig ddefnyddio Adran B y Cais i amlinellu'r dystiolaeth ar gyfer **gwerth, cyrhaeddiad ac effaith** ymarfer eu tîm yn erbyn dau faen prawf GCRhA yn eu tro. Ni ddylai Adran B fod yn fwy na 4,500 o eiriau.

Ceir sawl ffordd wahanol o gyflwyno tystiolaeth ar gyfer pob un o'r meini prawf, fel y bo'n briodol yn ôl natur gwaith y tîm. Rhoddir rhai enghreifftiau isod, ond ni ddylai timau enwebedig deimlo eu bod wedi eu cyfyngu gan yr enghreifftiau hyn oherwydd maent wedi eu cynnwys i ddarparu mathau dangosol o dystiolaeth yn unig yn erbyn pob maen prawf.

**Pwyntiau allweddol:**

- dylai timau ddefnyddio Adran B y Cais i ddarparu a rhoi sylw i dystiolaeth yn erbyn pob maen prawf yn ei dro.
- bydd rhaid i dimau ddefnyddio tystiolaeth benodol o effaith i gefnogi eu cais yn erbyn pob maen prawf.
- er enghraifft, **gallai** ffynonellau posibl o dystiolaeth **gynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i) rhai** o'r enghreifftiau canlynol (fel y nodir yn y tabl isod), yn dibynnu ar gyd-destun y tîm enwebedig:

| **Maen Prawf 1**<br>Rhagoriaeth mewn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm | **Maen Prawf 2**<br>Rhagoriaeth mewn effaith gweithio ar y cyd |
|---|---|
| Enghreifftiau o ymarferion gweithio mewn tîm, prosesau a/neu ganlyniadau effeithiol<br>Tystiolaeth o nodau/pwrpas cyffredin<br>Tystiolaeth o arweinyddiaeth gyffredin a phriodol<br>Tystiolaeth o integreiddio arbenigedd amrywiol<br>Tystiolaeth o gyfranogiad tîm, datblygu a datrys gwrthdaro (os yw'n gymwys)<br>Tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer aelodau'r tîm<br>Adolygu/gwerthuso'r prosesau sydd yn eu lle<br>Tystiolaeth o effeithiolrwydd gwell dros amser<br>Geirdaon aelodau tîm/rhanddeiliaid | Adborth a gwerthusiadau myfyrwyr<br>Data myfyrwyr (dilyniant, cyflawniad, cadw, ymgysylltu ac ati)<br>Data staff (cyfranogiad, ymgysylltu, datblygu gyrfa ac ati)<br>Adborth/data o waith gyda chyfoedion, mentrau newydd/mentrau mewn lleoliadau newydd, datblygu polisi ac ati.<br>Defnyddio adnoddau'r tîm, ymagweddau, cyhoeddiadau ac ati<br>Gweithio gyda phartneriaid/sefydliadau allanol, cyrff proffesiynol eraill, ac ati<br>Cyflawniadau cydnabyddedig megis gwobrau, achrediadau, cyllid, llwyddiannau, lefelau buddsoddiad, partneriaethau allanol, ac ati.<br>Data meintiol i ddangos graddfa, cyrhaeddiad ac effaith gwaith y tîm enwebedig. |

- wrth ddewis tystiolaeth briodol, dylai timau ystyried:
  - defnyddio tystiolaeth ystyrlon ac argyhoeddiadol i gefnogi Cais y tîm; canolbwyntio ar ffynonellau o safon ac nid nifer y ffynonellau gwahanol.
  - cydbwyso'r mathau o dystiolaeth; er enghraifft, cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol lle y bo'n briodol yn ôl cyd-destun y tîm enwebedig.
  - defnydd o dystiolaeth sy'n dangos natur gynhwysol ymarfer y tîm.
  - wrth ysgrifennu'r Cais, dylai timau enwebedig ystyried sut mae eu harddull ysgrifennu a fframio'r Cais yn cynrychioli orau rhagoriaeth eu hymarfer ar gyfer ystod amrywiol o ddarllenwyr.

Y sefydliad enwebu a'r tîm enwebedig sy'n penderfynu'r hyn a ystyrir yn dystiolaeth briodol o effaith, ond caiff timau eu hannog i sicrhau bod llais y myfyriwr yn cael ei glywed o fewn Adran B y Cais. Wrth gwrs bydd timau o ddisgyblaethau neu rolau proffesiynol

academaidd amrywiol yn arddangos dulliau cyfathrebu a dadansoddol gwahanol, a chaiff hyn ei ystyried yn y broses asesu. Bydd Ceisiadau'n amrywio'n sylweddol o ran arddull a chyd-destun; nid oes unrhyw arddull neu 'fformiwla' disgwyliedig i'w ddilyn.

### Gwerth, Cyrhaeddiad ac Effaith

Bydd adolygwyr am weld tystiolaeth sy'n arddangos **gwerth, cyrhaeddiad** ac **effaith** ymarfer y tîm enwebedig. Dylai timau gadw'r gofyniad hwn mewn cof a cheisio darparu tystiolaeth sy'n dangos cydbwysedd o'r tair nodwedd hyn ar draws y Cais.

**Gwerth –** Y budd a gaiff myfyrwyr a staff (a all fod mewn ffurfiau gwahanol). Gall gwerth gynnwys tystiolaeth ansoddol megis newid mewn ymagwedd at ddysgu ymysg myfyrwyr neu staff. Er enghraifft, gellir darparu tystiolaeth ynghylch sut y mae'r gwaith a ddisgrifir wedi ychwanegu gwerth at brofiad dysgu'r myfyrwyr neu at ymarfer addysgu. Gall gwerth ymwneud ag ansawdd profiad dysgu'r myfyrwyr neu ymarfer addysgu. Gallai gwerth hefyd ymwneud â'r budd a gaiff aelodau'r tîm trwy gymryd rhan. Gall rhai timau enwebedig fod yn gweithio mewn lleoliadau lle mae elfennau moesegol penodol cadarnhaol i'w hymarfer hefyd.

**Cyrhaeddiad –** Graddfa dylanwad. Er y gall cyrhaeddiad 'daearyddol' fod yn bwysig ar gyfer rhai timau enwebedig, mae'n ddefnyddiol ystyried ffyrdd eraill y gall tîm enwebedig ddangos cyrhaeddiad. Gall rhai timau enwebedig ddangos cyrhaeddiad ar lefel adrannol, cyfadran, cenedlaethol a/neu fyd-eang, er enghraifft, ond gallai eraill ddarparu tystiolaeth o sut mae eu hymarfer wedi cyrraedd grwpiau gwahanol o fyfyrwyr, unigolion, a/neu sefydliadau (e.e. ôl-raddedigion, myfyrwyr cymudo, myfyrwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol, dysgwyr ar-lein ac ati).

**Effaith –** Y gwahaniaeth sydd wedi cael ei wneud i bolisi, ymarfer a/neu ganlyniadau myfyrwyr o ganlyniad i weithgaredd. Y ffocws yma yw ar dystiolaeth benodol i ddangos bod newid cadarnhaol yn digwydd. Gall tystiolaeth o effaith fod yn feintiol ac yn ansoddol, ond mae'n bwysig dangos sut y mae'r gweithgareddau a ddisgrifir wedi newid canlyniadau dysgu i fyfyrwyr a/neu ymarfer addysgu AU. Mae'r effaith ar aelodau'r tîm, neu ar y tîm cyfan, o ganlyniad i'r gwaith hefyd yn berthnasol yma.

Wrth ddatblygu Cais GCRhA, gallai timau enwebedig ganolbwyntio ar werth, cyrhaeddiad ac effaith trwy ofyn y cwestiynau canlynol:

- Beth yw'r *gwerth* ychwanegol a gynigir trwy gael y tîm i weithio fel hyn?
- Sut mae gweithio fel y tîm *yma*, yn benodol, yn gwella ei *gyrhaeddiad*?
- Sut mae'r *effaith* yn fwy oherwydd bod hwn yn dîm cydlynol, neu oherwydd mai'r tîm arbennig hwn ydyw, gyda'r aelodau penodol yma?

### Gweithio mewn Tîm Cydweithredol yn erbyn Tîm sy'n Gweithio ar y Cyd

Dylai timau enwebedig geisio dangos tystiolaeth o'u hymagweddau gweithio ar y cyd o dan y ddau faen prawf dyfarnu. Mae gweithio ar y cyd yn gyflwr o ryngddibyniaeth sy'n debygol o fod yn llawer dyfnach na dim ond cydweithio fel aelodau o dîm. Mae Ceisiadau llwyddiannus yn debygol o roi sylw i agweddau ar ymarfer sy'n mynd y tu hwnt i ddisgrifio sut mae'r tîm yn gweithio gydag eraill. Ethos GCRhA yw cydnabod gweithio mewn tîm fel elfen bwysig o ymarfer AU llwyddiannus. Dylai timau enwebedig ddisgwyl disgrifio sut y

cafodd y tîm ei sefydlu, sut y mae wedi datblygu, a sut y mae'n parhau i weithio i gael effaith effeithiol.

Mae'r graffig isod (wedi ei atgynhyrchu gyda chaniatâd John Spencer) yn amlinellu rhai o'r prif wahaniaethau rhwng y ddau gysyniad. Mae nodweddion gweithio ar y cyd a restrir yn y darlun hwn yn ddull defnyddiol i dimau enwebedig gasglu tystiolaeth effeithiol ar gyfer y ffordd hon o weithio.




**Bodloni Maen Prawf 1: Rhagoriaeth mewn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm**
*Tystiolaeth o ragoriaeth yn ymagwedd y tîm at weithio ar y cyd, sy'n gymesur â'i gyd-destun a'r cyfleoedd y mae hynny'n ei gynnig.*

Mae Maen Prawf 1 yn canolbwyntio'n bennaf ar werth a'r ymagwedd at weithio ar y cyd a chynllunio ar gyfer cyrhaeddiad ac effaith. I roi rhai enghreifftiau, gallai Maen Prawf 1 gael ei ddangos trwy ddarparu tystiolaeth o ragoriaeth o ran:

+ bod â chyfres glir o nodau, amcanion a sail resymegol ar gyfer ymagwedd y tîm a sut y mae'r grŵp yn ffurfio tîm ac wedi datblygu fel tîm.
+ dangos ymgysylltiad uniongyrchol myfyrwyr o fewn neu gyda'r tîm.
+ dangos sut y mae'r tîm wedi cyfrannu at flaenoriaethau thematig a sector ehangach, er enghraifft: asesu ac adborth, cadw staff, cyflogadwyedd, datblygu staff, myfyrwyr fel partneriaid, technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol, cynaliadwyedd, menter ac entrepreneuriaeth, dysgu hyblyg, rhyngwladoli, llesiant a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant;.

- cydweithio ag amrywiaeth o grwpiau o randdeiliaid.
- corffori ymarferion ar draws rhaglenni, disgyblaethau, campysau neu sefydliadau gwahanol.
- arddangos ymarferion tîm, sy'n cynnig modd gweithio'n effeithiol.
- bod yn hyblyg ac yn greadigol wrth weithio i roi sylw i sefyllfaoedd neu ddigwyddiadau annisgwyl.
- mynegi'r prosesau sydd yn eu lle ar gyfer mesur effaith neu ganlyniadau gweithio ar y cyd.

**Bodloni Maen Prawf 2: Rhagoriaeth mewn effaith gweithio ar y cyd**
*Tystiolaeth bod y tîm yn cael effaith bendant ar addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol arferol.*

Mae Maen Prawf 2 yn canolbwyntio ar ddangos *cyrhaeddiad* ac *effaith* gwaith y tîm a *gwerth* gan gynnwys y tu hwnt i'w gyd-destun cychwynnol. I roi rhai enghreifftiau, gallai Maen Prawf 2 gael ei arddangos trwy ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- cyrhaeddiad gwaith y tîm.
- y gwerth ehangach sydd wedi deillio o weithio fel tîm.
- y gwerth ychwanegol a geir trwy gyrhaeddiad a/neu effaith gwaith y tîm
- effaith cefnogi cydweithwyr a/neu ddylanwadu ar gymorth ar gyfer addysg myfyrwyr.
- yr effaith ar addysg neu ganlyniadau myfyrwyr.
- effaith unrhyw ganlyniadau/allbynnau gweithio ar y cyd.

## 5.5 Adran C: Rhestr Gyfeiriadau

Mae'r Cais yn cynnwys adran olaf (Adran C) lle y dylai timau ddarparu rhestr o unrhyw gyfeiriadau y maent wedi eu defnyddio o fewn y dystiolaeth a ddarparant yn erbyn pob maen prawf. Er enghraifft, efallai fod y tîm yn defnyddio canlyniadau ymchwil perthnasol, ysgoloriaeth ac ymarfer proffesiynol a/neu ymgysylltu â a chyfrannu at lenyddiaeth sefydledig neu ei sylfaen dystiolaeth ei hun ar gyfer addysgu a dysgu.

**Ni ddylai** timau enwebedig restru eu holl gyhoeddiadau a chyflwyniadau yn unig ond yn hytrach dylent ganolbwyntio ar y rhai sydd wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â'r deunyddiau yn Adran B. Dylai timau enwebedig hefyd fod yn ymwybodol na all y Rhestr Gyfeiriadau gael ei defnyddio i ychwanegu hyperddolenni at ddeunyddiau ategol pellach.

Er nad oes terfyn nifer y geiriau ar gyfer y Rhestr Gyfeiriadau, mae dadansoddiad o enwebiadau llwyddiannus blaenorol yn awgrymu bod rhestr gyda llai na 2 neu fwy nag 20 o gyfeiriadau yn debygol o fod yn anghyson â cheisiadau llwyddiannus. Dylai'r Rhestr Gyfeiriadau **gynnwys cyfeiriadau y cyfeirir atynt yn uniongyrchol yn unig** o fewn y dystiolaeth a ddarperir yn Adran B y Cais.

Nid yw'r Rhestr Gyfeiriadau yn rhan o'r broses adolygu ac felly ni chaiff ei 'sgorio' gan yr adolygwyr. Pwrpas y rhestr yw cynnig modd i adolygwyr nodi ffynonellau a rhoi

cydnabyddiaeth briodol i awdur sydd wedi ysbrydoli unrhyw feysydd gwaith y tîm y ceir tystiolaeth ohono yn y Cais.

# 6. Datganiad o Gefnogaeth

Mae'r datganiad o gefnogaeth yn elfen bwysig o'r Cais. Mae'n darparu cadarnhad o arwyddocâd gwaith y tîm enwebedig i'r sefydliad ac yn cael ei ystyried gan adolygwyr fel cymeradwyaeth o gyflwyniad y tîm enwebedig. Mae'n cymeradwyo'r Cais a wnaed gan y tîm enwebedig ac yn fframio gwerth, cyrhaeddiad ac effaith ymarfer y tîm o bersbectif sefydliadol.

Ni ddylai'r Datganiad o Gefnogaeth gael ei weld yn ffynhonnell o dystiolaeth ategol (neu newydd); dylai agweddau craidd o Gais y tîm, a'r dystiolaeth ar gyfer yr agweddau hyn, gael eu cynnwys o fewn Adran B y Cais. Mae Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad yn ddogfen atodol a'i hunig bwrpas yw cymeradwyo'r hyn a nodir o fewn Adran B.

Cynghorwn y dylai'r Datganiad o Gefnogaeth sefydliadol gael ei ysgrifennu gan gydweithiwr mewn swydd uwch yn y sefydliad enwebu (ar lefel Dirprwy Is-Ganghellor/Cyfarwyddwr Maes Gwasanaeth Proffesiynol, neu rywun cyfatebol) sy'n gyfarwydd â gwaith y tîm enwebedig. Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth ddilysu'r effaith a dystir gan y tîm, darparu cyd-destun sefydliadol ar gyfer gwaith y tîm, a darparu unrhyw wybodaeth ategol a allai gael ei mynegi'n fwy priodol gan uwch gydweithiwr sy'n gyfarwydd ag ymarfer y tîm enwebedig; er enghraifft, persbectif ar bwysigrwydd strategol gwaith y tîm a/neu'r newid sy'n deillio o ganlyniad i'w weithredoedd.

Mae'r gofyniad yn parhau i Is-Ganghellor/Prifathro/Llywydd (neu rywun cyfatebol) ddarparu'r gymeradwyaeth derfynol ar gyfer Datganiad o Gefnogaeth i gadarnhau cymeradwyaeth sefydliadol ffurfiol ar gyfer yr enwebiad.

Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth (Atodiad 2) gael ei gwblhau trwy ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael i AGRhA trwy grŵp 'Rhwydwaith Cysylltu Arweinydd Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu (AGRhA)' ar blatfform preifat Cysylltu AU Ymlaen. Argymhellir bod Cais y tîm enwebedig ar gyfer GCRhA yn cael ei ddarllen cyn llunio Datganiad o Gefnogaeth y sefydliad oherwydd mae cael y datganiad hwn i gyfateb yn dda â'r Cais yn ddefnyddiol iawn. Yn arbennig, dylai'r datganiad:

+ gymeradwyo dilysrwydd Cais y tîm enwebedig.
+ darparu'r cyd-destun sefydliadol lle gwelwyd bod y tîm enwebedig wedi cael effaith ar addysgu a dysgu ac amlinellu unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i ledaenu ei ymarfer ymhellach.
+ darparu cadarnhad o gefnogaeth sefydliadol ar gyfer y tîm enwebedig, os yw'n llwyddiannus, o ran cyflawni unrhyw gyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag ennill Gwobr ar y Cyd ar gyfer Rhagoriaeth mewn Addysgu.
+ darparu unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol a allai gael ei mynegi'n fwyaf priodol gan gydweithiwr sy'n gweithio mewn rôl uwch (e.e. ar lefel Dirprwy Is-Ganghellor/Cyfarwyddwr Maes Gwasanaeth Proffesiynol, neu rywun cyfatebol).
+ cael ei gymeradwyo gan yr Is-Ganghellor/Prifathro/Llywydd (neu rywun cyfatebol) i ffurfioli'r enwebiad a darparu enw, teitl swydd a llofnod yr Is-Ganghellor/Prifathro/Llywydd (neu rywun cyfatebol).

# 7. Y broses adolygu a dewis

Caiff pob tîm enwebedig ei ystyried gan adolygwyr cyfoedion annibynnol, allanol yn seiliedig ar y wybodaeth y mae'r timau enwebedig yn ei chyflwyno yn erbyn dau faen prawf GCRhA yn Adran B y Cais.

Daw adolygwyr cyfoedion AU Ymlaen o blith gweithwyr proffesiynol addysgu a dysgu ar draws y sector addysg uwch ac maent yn annibynnol ar AU Ymlaen. Mae'r adolygwyr i gyd yn brofiadol ym maes asesu yn seiliedig ar feini prawf, byddant wedi cwblhau'n llwyddiannus ymarfer cymedroli ac wedi cael hyfforddiant cyn gweithredu fel adolygwr GCRhA. Mae adolygwyr yn ymgymryd â'u rôl yn gyfrinachol ac ni rennir eu hunaniaeth ag aelodau'r tîm, sefydliadau enwebu neu Banel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn ystod y broses dewis a dyfarnu.

Gofynnir i adolygwyr roi sgôr (0-9) ar gyfer pob rhan o Adran B o Gais y tîm yn erbyn dau faen prawf dyfarnu GCRhA yn eu tro, gan sicrhau bod pob maen prawf yn cael yr un pwysiad yn y broses asesu. Mae terfynau caeth yn cael eu gosod ar gyfer nifer y geiriau yn y Cais, a gofynnir i adolygwyr beidio ag ystyried unrhyw ran o Adran B y Cais sy'n fwy nag uchafswm nifer y geiriau a ganiateir, sef 4,500 o eiriau. Defnyddir y cyfarwyddyd sgorio (Atodiad 3) gan yr adolygwyr i roi sgorau, gydag uchafswm sgôr o 18.

Yn 2026, bydd AU Ymlaen yn penodi tri adolygwr ar gyfer pob enwebiad, gan osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Mae adolygwyr yn rhoi sgôr 0-9 ar gyfer y ddau faen prawf. Defnyddir cyfres o algorithmau er mwyn gwahaniaethu sgorau a phennu gradd derfynol. Os yw sgorau un adolygwr wedi eu diffinio fel rhai sy'n anghyson â sgorau'r ddau adolygwr arall, defnyddir pedwerydd adolygwr, a defnyddir y tair sgôr agosaf i gyfrifo'r radd.

Bydd pob adolygwr yn asesu pob Cais yn annibynnol a heb ymgynghori ag eraill.

Mae AU Ymlaen yn goruchwylio'r gwaith o safoni'r asesiad, ac mae'n monitro ac yn prosesu holl ddata'r tîm enwebedig er mwyn adrodd i Banel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU. Mae'r dull a ddefnyddir yn sicrhau nad yw'r tîm enwebedig o dan anfantais oherwydd anghysondebau wrth farcio, a bod pob tîm yn cael ei drin yn deg ac yn gyson.

Mae AU Ymlaen wedi ymrwymo i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Wrth brosesu enwebiadau, mae'n sicrhau nad yw unrhyw dîm enwebedig yn cael ei drin yn llai ffafriol nag eraill ar sail rhyw, hil, cenedligrwydd, tras ethnig neu genedlaethol, credoau crefyddol neu wleidyddol, anabledd, statws priodasol, cefndir cymdeithasol, amgylchiadau teuluol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, euogfarnau wedi eu disbyddu, oedran, neu am unrhyw reswm anghyfreithlon arall.

Mae Panel Cynghori Gwobrau Rhagoriaeth mewn Addysgu y DU yn adolygu data monitro cyfle cyfartal di-enw, y graddau a sylwadau'r adolygwyr ac yn gwneud argymhellion ar gyfer yr timau buddugol, sy'n cael eu cadarnhau wedi hynny gan Grŵp Prif Weithredwyr AU Ymlaen.

# 8. Digwyddiadau Cymorth Rhwyd-GCRhA

Yn ogystal â'r canllawiau a gyflwynir o fewn y ddogfen hon, mae aelodau o Rhwyd-GCRhA (enillwyr blaenorol Rhwyd-GCRhA) yn cynnal cyfres o weithdai cymorth ar-lein ar gyfer timau sy'n datblygu enwebiadau. Mae mynychwyr blaenorol wedi dweud bod y digwyddiadau hyn wedi rhoi cymorth amhrisiadwy iddynt wrth ysgrifennu Cais y tîm. Mae'r digwyddiadau cymorth Rhwyd-GCRhA yn rhad ac am ddim i'w mynychu. Caiff y dolenni bwcio eu hanfon i'r AGRhA ac maent yn gyfrifol am hyrwyddo'r digwyddiadau o fewn eu sefydliad.

# 9. Canlyniadau a chyhoeddusrwydd

Caiff Arweinwyr Tîm a'u AGRhA wybod canlyniad eu henwebiad trwy'r ebost yn ystod yr wythnos yn dechrau dydd Llun 29 Mehefin 2026. Bydd Is-Ganghellor/Prifathro/Llywydd (neu rywun cyfatebol) pob sefydliad enwebu hefyd yn cael gwybod ar y dyddiad hwnnw a fu ei dîm enwebedig yn llwyddiannus.

Bydd cyhoeddi enwau enillwyr GCRhA 2026 **dan embargo tan ddydd Iau 6 Awst 2026**. Tra eu bod dan embargo, caniateir i Arweinwyr Tîm a'u AGRhA llwyddiannus ddatgelu newyddion am eu llwyddiant i aelodau tîm craidd eraill ac aelodau perthnasol o dim marchnata a chyfathrebu eu Darparwr Addysg Uwch at ddibenion cynllunio; yna mae'n rhaid i'r cydweithwyr hyn hefyd gadw at amodau'r embargo. Dylid cyfeirio pob ymholiad ynglŷn â chynlluniau ar gyfer y diwrnod cyhoeddi at communications@advance-he.ac.uk.

Un o amodau cystadleuaeth GCRhA yw nad yw'r tîm buddugol, a'i sefydliad enwebu, yn rhannu newyddion am eu llwyddiant cyn y dyddiad hwnnw er mwyn sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf posibl. Gallai gweithredu'n groes i'r gofyniad hwn arwain at dynnu'r wobr yn ôl. Caiff enwau enillwyr GCRhA 2026 eu cyhoeddi'n swyddogol ar ddydd Iau 6 Awst 2026 ar wefan AU Ymlaen ac mewn datganiad i'r wasg. Mae croeso i sefydliadau gyhoeddi a dathlu eu henillwyr **o 08:00 (BST) ddydd Iau 6 Awst.**

Bydd pob Arweinydd Tîm a Dirprwy Arweinydd Tîm llwyddiannus yn derbyn **bathodyn digidol rhyngweithiol GCRhA** ar, neu'n fuan ar ôl, dyddiad swyddogol cyhoeddi'r canlyniadau. Gellir lawrlwytho'r bathodyn rhyngweithiol a'i rannu neu ei ychwanegu at lofnod ebost. Mae'n cynnwys gwybodaeth am feini prawf dyfarnu GCRhA ac yn arddangos tystysgrif ar-lein yr Arweinydd Tîm/Dirprwy Arweinydd Tîm. Bydd y wybodaeth ar gyfer y bathodyn yn cael ei chymryd o wybodaeth y tîm enwebu a gofnodwyd yn SMA gan yr AGRhA yn ystod y broses gyflwyno. Gweler bathodynnau enghreifftiol isod:






Mae GCRhA yn gystadleuaeth ac felly mae penderfyniad y Panel yn derfynol ac ni ellir gwneud unrhyw apeliadau yn erbyn ei benderfyniad. Dylai proses gwyno AU Ymlaen gael ei dilyn i roi sylw i unrhyw bryderon yn ymwneud â thriniaeth deg wrth weinyddu'r enwebiadau. Yn y lle cyntaf, os yw unrhyw gwestiynau neu bryderon yn codi, ebostiwch cate@advance-he.ac.uk.

## 9.1 Gwybodaeth am Gyhoeddusrwydd a Ffotograffau

Bydd tîm Marchnata a Chyfathrebu AU Ymlaen yn gofyn am y wybodaeth ganlynol gan yr Arweinwyr Tîm a Dirprwy Arweinwyr Tîm llwyddiannus ar yr adeg y caiff y canlyniadau unigol eu cyfathrebu (gweler uchod, yr wythnos yn dechrau 29 Mehefin 2026) i'w defnyddio ar wefan AU Ymlaen ac yn llyfryn y seremoni. Rhaid cyflwyno gwybodaeth a ffotograffau i Dîm Cyfathrebu AU Ymlaen (communications@advance-he.ac.uk), trwy ffurflen ar-lein (dolen i'w darparu) erbyn **13 Gorffennaf 2026**.

**Gwybodaeth am y tîm enwebedig:**

+ Proffil y tîm (hir). Proffil personol 350 o eiriau wedi ei ysgrifennu yn y trydydd person ('nhw' neu 'y tîm') i gynnwys:
  - Trosolwg o'r tîm. Dylai hwn roi manylion byr am aelodau'r tîm a'u cyfraniad i'r tîm;
  - Trosolwg o effaith. Dylai hyn gynnwys uchafbwyntiau gweithio ar y cyd y tîm sydd wedi cael effaith bendant ar addysgu a dysgu;
  - Stori bersonol y tîm. Mae enghreifftiau o broffiliau enillwyr blaenorol i'w gweld ar wefan AU Ymlaen i'w cyfeirio atynt.
+ Proffil tîm (byr). Crynodeb 50 o eiriau o broffil y tîm, wedi ei ysgrifennu yn y trydydd person.
+ Cysylltau cyfryngau cymdeithasol e.e. proffil LinkedIn, Bluesky Handle ac ati (fel y bo'n briodol).

**Ffotograff:**

+ Gofynion ar gyfer ffotograffau:
  - Un ffotograff eglur iawn 1Mb a 300dpi (o leiaf) o'r tîm (sylwer, gellir gwneud hyn ar y rhan fwyaf o ffonau clyfar a chamerâu nad ydynt yn rhai proffesiynol);
  - Ffotograff wedi ei gyflwyno mewn fformat JPEG a fformat tirlun;
  - Gall y tîm gyflwyno logo sefydliadol yn lle ffotograff grŵp os oes angen.

Sylwch, wrth gyflwyno delwedd i AU Ymlaen, mae'r Arweinydd Tîm/Dirprwy Arweinydd Tîm yn rhoi caniatâd i AU Ymlaen ddefnyddio'r ddelwedd hon at ddibenion hyrwyddo neu gyhoeddusrwydd a hefyd yn cadarnhau mai'r tîm yw perchennog unrhyw hawliau eiddo deallusol neu fod ganddo drwydded briodol i rannu'r ddelwedd hon ag AU Ymlaen ac i AU Ymlaen ddefnyddio'r ddelwedd a ddarparwyd at y diben hwn.

Os na dderbynnir gwybodaeth a ffotograff (neu logo'r sefydliad) cyn y dyddiad cau, bydd proffil y tîm buddugol yn dangos enw'r tîm a'r sefydliad **yn unig.** Ni allwn warantu y bydd

gwybodaeth a delweddau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau (13 Gorffennaf 2026) yn cael eu golygu a'u lanlwytho mewn pryd ar gyfer y cyhoeddiad swyddogol.

## 9.2 Adborth

Yn dilyn cyhoeddi canlyniad GCRhA 2026, bydd AU Ymlaen yn rhoi adborth ysgrifenedig i bob tîm enwebedig a'i AGRhA erbyn diwedd mis Awst 2026. Mae'r amserlen hon yn angenrheidiol oherwydd y nifer fawr o enwebiadau GCRhA a dderbynnir a'r gwaith sylweddol sy'n digwydd er mwyn gwirio a choladu'r adborth ysgrifenedig gan bob un o'r tri adolygydd ar gyfer dau faen prawf GCRhA. Bwriedir i'r adborth ansoddol hwn gan yr adolygwyr ategu'r cynlluniau ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Nid yw sgorau adolygwyr a graddau enwebiadau yn cael eu rhyddhau.

# 10. Seremoni wobrwyo

Bydd cinio dathlu yn cael ei gynnal yn hydref 2026 (dyddiad a lleoliad i'w cadarnhau), ac estynnir gwahoddiad i ddau aelod o'r tîm a'r Is-ganghellor/Prifathro/Llywydd (neu rywun cyfatebol). Mae tocynnau ychwanegol hefyd ar gael i'w prynu.

# Atodiad 1: Ffurflen Gais Tîm Enwebedig GCRhA 2026

| | |
|---|---|
| **Enw'r Arweinydd Tîm:** | |
| **Enw'r Dirprwy Arweinydd Tîm:** | |
| **Enw'r Tîm:** | |
| **Sefydliad:** | |

**Adran A, Rhan 1: Cyfansoddiad y Tîm Craidd (heb ei sgorio gan yr adolygwyr)**

**Ychwanegwch ragor o resi fel y bo angen (uchafswm o 15 o aelodau, gan gynnwys Arweinwyr Tîm a Dirprwy Arweinwyr Tîm)**

| Enw | Rôl a/neu Swydd |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**Adran A, Rhan 2: Datganiad Cyd-destun (heb ei sgorio gan yr adolygwyr) (uchafswm o 300 o eiriau)**

| | |
|---|---|
| **Nifer y geiriau ar gyfer Adran A, rhan 2 (uchafswm 300 o eiriau)** | *Rhowch nifer y geiriau ar gyfer Adran A, rhan 2 yma:* |

**Adran B: Cais yn erbyn Meini Prawf GCRhA**

**(tystiolaeth yn erbyn pob Maen Prawf 1 a 2 wedi ei sgorio ar wahân gan yr adolygwyr)**

**Maen Prawf 1: Rhagoriaeth mewn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm**

Tystiolaeth o ragoriaeth mewn ymagwedd y tîm at weithio ar y cyd, sy'n gymesur â'i gyd-destun a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu cynnig.

| **Maen Prawf 2: Rhagoriaeth mewn effaith gweithio ar y cyd**<br><br>Tystiolaeth bod y tîm yn cael effaith bendant ar addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol arferol. | |
|---|---|
| | |
| **Cyfanswm nifer y geiriau ar gyfer Adran B (uchafswm 4500 o eiriau)** | *Geiriau wedi eu cynnwys yn y ffigurau:*<br>*Geiriau wedi eu cynnwys ym mhrif gorff y testun:*<br>*Cyfanswm nifer y geiriau:* |
| **Adran C: Rhestr Gyfeiriadau (heb ei sgorio gan yr adolygwyr)** | |
| | |
| **Llofnod* yr Arweinydd Tîm:**<br><br>**(Mae enw wedi ei deipio yn dderbyniol)** | |
| **Dyddiad:** | |
| Drwy gyflwyno'r ddogfen hon, cadarnhaf fel a ganlyn:<br>• Nid wyf yn AGRhA nac yn Ddirprwy AGRhA nac yn enwebai ar gyfer CCAC 2026<br>• Cytunaf y gall yr AGRhA ar gyfer fy sefydliad gwblhau enwebiad ar-lein y tîm, gan gynnwys y wybodaeth bersonol sydd ei hangen.<br>• Gwaith tîm enwebedig GCRhA yn unig yw'r Cais hwn.<br>• Rwyf wedi darllen, rwy'n deall ac yn cytuno â datganiad Preifatrwydd AU Ymlaen. | |

# Atodiad 2: Datganiad o Gefnogaeth

Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth hwn gael ei **gwblhau** gan gydweithiwr mewn swydd uwch yn y sefydliad enwebu (Dirprwy Is-ganghellor/Cyfarwyddwyr Maes Gwasanaeth Proffesiynol neu rywun cyfatebol) sy'n gyfarwydd ag ymarfer addysgu a dysgu'r tîm enwebedig, a'i **lofnodi** gan Is-Ganghellor/Prifathro/Llywydd y sefydliad (neu rywun cyfatebol). Mae'n bwysig bod Cais y tîm yn cael ei ddarllen cyn llunio'r datganiad hwn. Mae Datganiad o Gefnogaeth sy'n cyfateb yn dda â'r Cais yn ddefnyddiol iawn.

<table>
<tr><td>Enw'r person sy'n ysgrifennu'r Datganiad o Gefnogaeth Sefydliadol:</td><td></td></tr>
<tr><td>Swydd:</td><td></td></tr>
<tr><td>Manylion cysylltu (cyfeiriad gwaith, ebost a ffôn):</td><td></td></tr>
<tr><td>Enw tîm enwebedig GCRhA:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Dylai'r Datganiad o Gefnogaeth hwn:<br>○ gymeradwyo dilysrwydd Cais y tîm enwebedig ar gyfer effaith ragorol;<br>○ darparu'r cyd-destun sefydliadol lle gwelwyd effaith ragorol y tîm enwebedig ac amlinellu unrhyw gynlluniau yn y dyfodol i ledaenu ei ymarfer;<br>○ darparu unrhyw wybodaeth ategol ychwanegol a allai gael ei mynegi'n fwyaf priodol gan gydweithiwr mewn rôl uwch (ar lefel Dirprwy Is-ganghellor/Cyfarwyddwr Maes Gwasanaeth Proffesiynol neu rywun cyfatebol) sy'n gyfarwydd â gwaith y tîm enwebedig.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Rhowch y Datganiad o Gefnogaeth yma:</td></tr>
<tr><td>Nifer y geiriau (uchafswm 1000 o eiriau)</td><td>Rhowch nifer y geiriau yma</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cymeradwyaeth sefydliadol gan yr Is-Ganghellor (neu rywun cyfatebol)</td></tr>
<tr><td>Enw, swydd ac ebost cysylltu</td><td></td></tr>
<tr><td>Llofnod electronig*<br>(*llofnod wedi ei sganio a heb ei deipio)</td><td></td></tr>
<tr><td>Dyddiad:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Drwy lofnodi'r ddogfen hon, cadarnhaf fel a ganlyn:<br>• Rwyf yn cymeradwyo'r enwebiad hwn ac yn cadarnhau bod y broses enwebu fewnol a arweiniodd at ddewis y tîm enwebedig GCRhA a enwir yn deg, yn dryloyw, ac wedi dilyn ein polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sefydliadol (neu'r cyfwerth).<br>• Rwyf wedi darllen, rwy'n deall ac yn cytuno â Datganiad Preifatrwydd AU Ymlaen.<br>• Gall AU Ymlaen ddefnyddio'r ffurflen hon i gadarnhau y bydd y sefydliad yn cefnogi'n llawn y tîm enwebedig wrth gynnal unrhyw weithgareddau a'r holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â rôl tîm buddugol GCRhA os yw'n llwyddiannus.</td></tr>
</table>

# Atodiad 3: Cyfarwyddyd Sgorio GCRhA 2026

Bydd adolygwyr yn defnyddio'r cyfarwyddyd sgorio isod i 'sgorio' dwy ran Adran B Cais y tîm enwebedig yn erbyn dau faen prawf GCRhA (hynny yw, uchafswm sgôr cyffredinol o 18 gan bob un o'r tri adolygwr).

| | 0 pwynt | 1-2 bwynt | 3-4 pwynt | 5-6 phwynt | 7-8 pwynt | 9 pwynt |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maen Prawf 1: Rhagoriaeth mewn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm** | Tystiolaeth **heb fod yn gysylltiedig** â rhagoriaeth mewn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm, sy'n gymesur â'i gyd-destun. | Tystiolaeth **rannol** o ragoriaeth mewn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm, sy'n gymesur â'i gyd-destun. | **Peth tystiolaeth dda** o ragoriaeth mewn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm, sy'n gymesur â'i gyd-destun. | Tystiolaeth **dda, gyda pheth dystiolaeth dda iawn** o ragoriaeth mewn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm, sy'n gymesur â'i gyd-destun. | Tystiolaeth **dda iawn, gyda pheth dystiolaeth ragorol** o ragoriaeth mewn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm, sy'n gymesur â'i gyd-destun. | Tystiolaeth **eithriadol** o ragoriaeth mewn ymagwedd gweithio ar y cyd y tîm, sy'n gymesur â'i gyd-destun. |
| **Maen Prawf 2: Rhagoriaeth mewn effaith gweithio ar y cyd** | Nid yw'r dystiolaeth yn dangos effaith y tîm ar addysgu a dysgu. | Tystiolaeth **rannol** o effaith y tîm ar addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol. | **Peth dystiolaeth dda** o effaith y tîm ar addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol. | Tystiolaeth **dda, gyda pheth dystiolaeth dda iawn** o effaith y tîm ar addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol. | Tystiolaeth **dda iawn, gyda pheth dystiolaeth ragorol** o effaith y tîm ar addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol. | Tystiolaeth **eithriadol** o effaith y tîm ar addysgu a dysgu, gan gynnwys y tu hwnt i'w faes academaidd neu broffesiynol. |

## Cysylltu â ni

cate@advance-he.ac.uk
www.advance-he.ac.uk
@AdvanceHE

© 2026 AU Ymlaen. Cedwir pob hawl.

Barn yr awdur a fynegir yn y cyhoeddiad hwn ac nid o reidrwydd barn AU Ymlaen. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i throsglwyddo mewn unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, electronig neu fecanyddol, gan gynnwys llungopïo, recordio, neu unrhyw system storio ac adalw heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint. Rhoddir caniatâd o'r fath fel arfer at ddibenion anfasnachol, addysgol ar yr amod y rhoddir cydnabyddiaeth briodol.

I wneud cais am gopïau o'r adroddiad hwn mewn print bras neu mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r Tîm Marchnata a Chyfathrebu yn AU Ymlaen: communications@advance-he.ac.uk

Mae AU Ymlaen yn gwmni cyfyngedig trwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr rhif 04931031. Cofrestrwyd fel elusen yng Nghymru a Lloegr rhif 1101607. Cofrestrwyd fel elusen yn yr Alban rhif SC043946. Ni ellir defnyddio geiriau na logo AU Ymlaen heb ein caniatâd. Rhif cofrestredig TAW GB 152 1219 50.